**EITEM AR YR AGENDA: 13**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Mawrth 2012**

## SEFYDLU PWYLLGOR MATERION CENEDLAETHOL AWDURDODAU TÂN AC ACHUB CYMRU

**Adroddiad gan Simon Smith, Prif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Gofynnir i'r Aelodau gadarnhau eu cymeradwyaeth i sefydlu'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol.

## Y Cefndir

2 Yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 19 Rhagfyr 2011, bu'r Aelodau'n ystyried papur gan y Prif Swyddog Tân a oedd yn amlinellu nifer o opsiynau strategol posib yn ymwneud â threfniadau strwythurol ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac achub yng Nghymru. Nid achos busnes manwl oedd y ddogfen a ystyriwyd, nac ychwaith ddadansoddiad cynhwysfawr o'r opsiynau, ond yn hytrach ddogfen i gymell trafodaeth am unrhyw faterion yr oedd yr Aelodau yn meddwl eu hystyried ymhellach.

3 Yn y cyfarfod hwnnw, dywedodd yr Aelodau pa fodel yr oeddent yn eu ffafrio, a phenderfynwyd y dylid cael rhagor o drafodaeth, ymchwil a dadansoddi ynglŷn â sefydlu Pwyllgor Materion Cenedlaethol ar gyfer y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru. Erbyn hyn, mae'r gwaith hwnnw wedi ei gwblhau, a chyflwynir cylch gwaith y Pwyllgor Materion Cenedlaethol yn Atodiad 1.

**Gwybodaeth**

4 Bydd sefydlu Pwyllgor Materion Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru yn gwella ymhellach y cydweithio, y modd y cyflwynir gwasanaethau a chael gwelliant parhaus mewn gwasanaethau.

5 Yn y bôn, byddai'n rhoi ffordd o reoli rhaglenni strwythuredig a chlir mewn perthynas â chydweithio rhwng y gwasanaethau, a hynny er mwyn cael yr arbedion mwyaf posib, atal colli cyfleoedd i gydweithio, a darparu cyfrwng ar gyfer gwelliannau tymor hir o ran gwasanaethau yn y tri Gwasanaeth.

6 Byddai'r Pwyllgor yn cynnwys fforwm strwythuredig, yn cyfarfod bob yn eil fis, ac yn cynnwys y tri Chadeirydd, y tri Dirprwy Gadeirydd, y tri Phrif Swyddog Tân a'r tri Dirprwy Brif Swyddog Tân. Byddai'r Cadeirydd yn cylchdroi bob yn ail flwyddyn rhwng y tri Awdurdod.

7 Byddai blaen-raglen waith strwythuredig yn cael ei datblygu gydag Aelod yn cael ei benodi'n arweinydd, Swyddog o'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol yn cael ei benodi'n ymgynghorydd allweddol i'r llif gwaith, ynghyd â Rheolwr Prosiect.

8 Rhagwelir y byddai'r meysydd llif gwaith cydweithredol strategol allweddol yn ymwneud ag:

(i) Integreiddio gwasanaethau cyffredin ac arbenigol (gan gynnwys Cludiant a TGCh);
(ii) Cydnerthu effeithiol a chynlluniau gweithredol;
(iii) Swyddogaethau cenedlaethol ar gyfer Adnoddau Dynol;
(iv) Ffordd genedlaethol o drin Hyfforddiant a Datblygiad;
(v) Trefniadau cenedlaethol o ran rheoli;
(vi) Swyddogaethau cenedlaethol ar gyfer Caffael.

9 Bydd meysydd blaenoriaeth penodol yn cael eu datblygu gan y Pwyllgor Materion Cenedlaethol yn fuan wedi ei greu, ynghyd â blaen-raglen waith strwythuredig.

10 Nod y Pwyllgor Materion Cenedlaethol fyddai datblygu a gweithredu gwell trefniadau ar gyfer cyflwyno gwaith cydweithredol cydlynedig. Byddai'r rhain yn ymgorffori'r bwriad i

gyflwyno canlyniadau cenedlaethol heb beryglu annibyniaeth yr Awdurdodau Tân ac Achub cyfansoddol.

11 Mae'r tri Phrif Swyddog Tân yng Nghymru yn credu'n gryf mai'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol yw'r ffordd orau ymlaen i gael gwell model o dri Awdurdod, a hwnnw'n gyson â'r opsiwn y mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y mae'n ei ffafrio o ran gweithio mewn partneriaeth a chydweithio â ffocws.

12 Caiff yr un cylch gwaith ar gyfer y Pwyllgor Materion Cenedlaethol ei gyflwyno i aelodau Awdurdodau Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin, a'r De, i'w cymeradwyo yn hwyrach fis hwn. Mae cydsyniad barn rhwng swyddogion yn y tri Gwasanaeth yng Nghymru y byddai ffurfio'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol yn gwella'n sylweddol y model cyfredol o dri Awdurdod.

## Goblygiadau Ariannol

13 Mae'r costau sy'n gysylltiedig â sefydlu Pwyllgor Materion Cenedlaethol wedi eu cyfyngu i draean o gyflog ac argostau swyddog wedi ei secondio i weithredu fel cydlynydd rhaglen. Yn ogystal â rhai treuliau teithio ac amser Swyddogion/Aelodau. Mae'r manteision posib i gydweithio yn gwrthbwyso'n fawr unrhyw gostau sefydlu.

## Goblygiadau Cyfreithiol

14 Y cynnig yw bod y Pwyllgor Materion Cenedlaethol yn cael ei sefydlu ar sail wirfoddol, anffurfiol, ac nid trwy amrywio'r Cynllun Cyfuno na thrwy'r Ddeddf Llywodraeth Leol. Hefyd, oherwydd bod y model o dri Awdurdod yn cael ei gadw'n llwyr gyda'r holl bwerau a threfniadau llywodraethu sy'n gysylltiedig, nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol penodol.

## Argymhelliad

15 Bod yr Aelodau'n:
- (i) cadarnhau eu bod yn cytuno i sefydlu Pwyllgor Materion Cenedlaethol anstatudol i ymdrin â materion cydweithredol;
- (ii) cytuno ar y cylch gwaith sydd yn yr atodiad i'r adroddiad hwn.